Golygfa Un ar ddeg

Katy yng nghanol y llwyfan. Y cast wedi'u gwasgaru ar draws y llwyfan. Chloe a Ben yn nhu blaen y llwyfan – un ar un ochr a'r llall ar yr ochr arall. Chloe ar ei gliniau efo'i phen i lawr a Ben yn sefyll efo'i ben i fyny.

Katy (Cerdded at Chloe. Wrth i Katy siarad, Chloe'n dechrau codi). Roedd Chloe'n ddewr ac yn gryf, ac efo help ei theulu a'i ffrindiau, a swyddog heddlu wedi'i hyfforddi'n arbennig, daeth drwyddi.

Katy (Cerdded drosodd at Ben ac wrth i Katy siarad, Ben yn dechrau penlinio'n araf. Cafodd Ben ei arestio a'i gyhuddo o drais rhywiol. Cafodd ei garcharu mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc a rhoddwyd ei enw ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw. Am fod ganddo gofnod troseddol, chafodd o ddim teithio i America fel yr oedd o wedi gobeithio. Pan ddaeth o allan o'r carchar, roedd Ben yn 21 oed ac er bod amser hir wedi mynd heibio, wnaeth neb byth anghofio be' wnaeth o.

Katy (Fel petai hi'n ôl yn yr olygfa gyntaf eto) Ar yr unfed ar hugain o Ragfyr 2009, mi wnaeth Chloe drio lladd ei hun.

Pawb Stop!

Katy Ond daeth drwyddi, dewisodd fyw. (Bethan a Rosie yn dadrewi ac yn mynd drosodd at Chloe) Mae hi rŵan yn paratoi i fynd i'r Brifysgol efo Rosie a Bethan.

Katy (Michael yn dadrewi) Mae Michael yn teithio o amgylch America efo'i fand. Mae o'n galw i weld ei hen ffrindiau o dro i dro. (Michael yn cerdded at Rosie, Chloe a Bethan). Wel - ar wahân i un (Pawb yn edrych drosodd at Ben)

**Popeth yn mynd yn ddu**